Eleni gwelwyd y camau cyntaf at roi Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol (2007) ar waith. Mae'r Ddeddf yn creu dau gorff newydd, y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff proffesiynol cyfreithiol presennol wahanu eu swyddogaethau fel rheoleiddiwr a chynrychiolydd eu proffesiynau a bydd hyn yn arwain at dynnu'r swyddogaeth ymdrin â chwynion oddi arnynt. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol yn goruchwylio'r rheoleiddwyr cymeradwy a fydd yn gyfrifol am reoleiddio ymddygiad proffesiynol gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol yn gyfrifol hefyd am y corff newydd ar gyfer ymdrin â chwynion, sef y Swyddfa Cwynion Cyfreithiol. Bûm yn dadlau ers sawl blwyddyn dros greu corff annibynnol i ymdrin â chwynion. Mae'n gwbl briodol na fydd y cyrff proffesiynol cyfreithiol yn ymchwilio yn y dyfodol i gwynion defnyddwyr am eu haelodau.

Mae'r Cadeirydd, y Prif Ombwdsmon a Bwrdd y Swyddfa Cwynion Cyfreithiol wedi cael eu penodi erbyn hyn a gobeithir y bydd cyfansoddiad ffurfiol y Bwrdd yn barod erbyn 1af Gorffennaf 2009. Mae'r broses o greu rheolau'r cynllun a fydd yn llywodraethu sut yr eir ati i ymdrin â chwynion defnyddwyr yn hollbwysig. Os cânt eu llunio'n briodol gallant helpu i sicrhau bod hyder yn y corff newydd yn cael ei feithrin yn gyflym.

Bydd angen i'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol fod yn hygyrch (yn rhad ac am ddim i'w defnyddio, yn agored ac ar gael i bawb y mae angen iddynt ei defnyddio), yn gymesur (yn ei phroses ac wrth ddatrys cwynion) ac yn effeithlon (ymdrechu i gyrraedd safonau heriol gweinyddiaeth dda). Mae'n hanfodol bod y cyrff newydd, fan leiaf, yn mabwysiadu ac yn ymgymryd â'r swyddogaethau syml hyn er mwyn bod yn llwyddiannus. Byddaf yn parhau i weithio gyda phob rhanddeiliad er mwyn helpu i sicrhau bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddfa Cwynion Cyfreithiol ymddiriedaeth y defnyddwyr a'r proffesiwn cyfreithiol. Mae'n bwysig ymgynghori ynghylch gwahanol ddewisiadau ar gyfer y cyfnod trosiannol er mwyn lleihau'r amser y bydd y cyrff sy'n ymdrin â chwynion yn awr ac yn y dyfodol yn cyd-redeg.

Gan edrych yn ôl ar 2008/2009 rwy'n falch o adrodd bod Bwrdd Safonau'r Bar yn parhau i gynnal eu perfformiad. Yn y flwyddyn a fu, roeddwn yn fodlon â 80% o'u hymchwiliadau. Nodaf ostyngiad bach ym mherfformiad yr Awdurdod Rheoleiddio Twrneiod - eleni roeddwn yn fodlon â 75% o'u hymchwiliadau. Mae'n hollbwysig bod yr Awdurdod Rheoleiddio Twrneiod yn adeiladu ar y perfformiad hwn. Yn siomedig, mae'r Gwasanaeth Cwynion

Cyfreithiol ar ei hôl hi rywfaint, a dim ond yn 64% o'u hymchwiliadau yr oeddwn i'n fodlon, er nodaf welliannau derbyniol yn yr amseroedd prosesu a'r gwasanaeth a ddarperir.

Er gwaethaf yr ansicrwydd parhaus i'm staff, o ganlyniad i'r bwriad i gau fy Swyddfa, ac, nid yn annisgwyl dan yr amgylchiadau, trosiant staff uwch nag a welwyd yn y blynyddoedd a fu, mae safon perfformiad fy Swyddfa, yn ystod 2008/2009, wedi bod yn uchel dros ben unwaith eto. Yr hyn yr hoffwn dynnu sylw ato'n arbennig yw bod amserlen gyfartalog fy Swyddfa o 2.2 mis ar gyfer prosesu ymchwiliadau yn well o lawer na tharged y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gwblhau 90% o ymchwiliadau mewn 6 mis.

Wrth gwrs, nid oes fawr o bwrpas cael ymchwiliadau cyflym os nad ydynt o safon. Felly, rwy'n falch o adrodd bod 98% o'r adroddiadau drafft wedi cyrraedd y safonau a bennwyd yn ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd mewnol. Cyflawnwyd y perfformiad hwn a ninnau'n gweithio o fewn cyfyngiadau ariannol tynn ac yn sicrhau 6.3% o arbedion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Hoffwn dalu teyrnged i'm staff am y perfformiad gwych hwn.

Zahida Manzoor CBE
Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyfreithiol dros Gymru a Lloegr